HAWL I WEITHIO YN Y DU

Mae'n ofyniad cyfreithiol bod holl staff y cyngor yn gymwys i weithio yn y DU a bod Cyngor Sir Ddinbych yn cadw tystiolaeth o hyn ar gyfer pob unigolyn. Byddwch yn ymwybodol na fydd modd i chi ddechrau gweithio hyd nes i ni gael copi o'r dystiolaeth angenrheidiol yn unol â'r isod. Bydd methu â darparu'r wybodaeth hon yn arwain at dynnu'r cynnig o gyflogaeth yn ôl.

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu unrhyw UN o'r dogfennau o Restr A isod. Os na allwch chi ddarparu dogfen o Restr A, rhaid i chi ddarparu DWY ddogfen o Restr B yn lle. Mae'n rhaid dangos y dogfennau gwreiddiol.

Rhestr A
Pasport sy'n dangos eich bod yn Ddinesydd Prydeinig, neu fod gennych hawl i fyw yn y Deyrnas Unedig.
Dogfen yn dangos eich bod yn ddinesydd o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir (rhaid i hyn fod ar ffurf pasport cenedlaethol neu Gerdyn Adnabod Cenedlaethol).
Trwydded breswylio a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i chi fel dinesydd o wlad Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.
Pasport neu ddogfen arall a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref sy'n cynnwys ardystiad yn datgan bod gennych hawl cyfredol i breswylio yn y Deyrnas Unedig fel aelod o deulu dinesydd o wlad Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.
Pasport neu ddogfen deithio arall sy'n arnodi eich bod yn gallu aros am gyfnod amhenodol yn y Deyrnas Unedig, neu nad oes gennych unrhyw derfyn amser ar eich arhosiad.
Pasport neu ddogfen deithio arall sy'n arnodi eich bod yn gallu aros yn y Deyrnas Unedig, a bod y gymeradwyaeth hon yn caniatáu i chi i wneud y math o waith yr ydym yn ei gynnig os nad oes gennych drwydded waith.
Cerdyn Cais Cofrestru a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i geisiwr lloches yn datgan bod gennych hawl i dderbyn cyflogaeth.

Rhestr B (Cyfuniad Cyntaf)

A. Dogfen yn rhoi eich Rhif Yswiriant Gwladol parhaol a'ch enw. Gallai hon fod yn P45, P60, cerdyn Yswiriant Gwladol, neu lythyr gan asiantaeth o'r Llywodraeth. **Nid yw** rhifau parhaol yn dechrau gyda TN ac nid ydynt yn gorffen gyda llythyren rhwng E a Z.

Ynghyd ag un o'r dogfennau canlynol a restrir yn adrannau B - H:

B. Tystysgrif geni lawn a roddwyd yn y DU sy'n cynnwys enwau eich rhieni; NEU
C. Tystysgrif geni a roddwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu'r Iwerddon; NEU
D. Tystysgrif gofrestru neu ddinasyddiaeth yn datgan eich bod yn ddinesydd Prydeinig; NEU
E. Llythyr a roddwyd i chi gan y Swyddfa Gartref sy'n nodi y gallwch chi aros am gyfnod amhenodol yn y D.U. neu nad oes unrhyw derfyn amser ar eich arhosiad; NEU
F. Dogfen Statws Mewnfudo a roddwyd i chi gan y Swyddfa Gartref gydag ardystiad yn nodi y gallwch aros am gyfnod amhenodol yn y Deyrnas Unedig, neu nad oes unrhyw derfyn amser ar eich arhosiad; NEU
G. Llythyr a roddwyd i chi gan y Swyddfa Gartref sy'n dangos y gallwch aros yn y Deyrnas Unedig, **a** bod hwn yn eich caniatáu chi i wneud y math o waith rydym yn ei gynnig; NEU
H. Dogfen Statws Mewnfudo a roddwyd i chi gan y Swyddfa Gartref gydag ardystiad yn nodi y gallwch aros yn y Deyrnas Unedig, a bod hwn yn eich caniatáu chi i wneud y math o waith rydym yn ei gynnig.

Rhestr B (Ail Gyfuniad)

A. Trwydded waith neu gymeradwyaeth arall i dderbyn swydd a roddwyd gan Trwyddedau Gwaith y DU.

Ynghyd â dogfen a roddwyd gan Trwyddedau Gwaith y DU, dylech hefyd ddarparu copi o un o'r dogfennau canlynol a restrir isod.

B. Pasbort neu ddogfen deithio arall a arnodwyd i ddangos y gallwch chi aros yn y DU ac y gallwch ymgymryd â'r swydd dan sylw lle mae angen trwydded waith; NEU
C. Llythyr a roddwyd i chi gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau y gallwch chi aros yn y DU ac ymgymryd â'r swydd dan sylw lle mae angen trwydded waith.